

Rebecca Evans AC  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Annwyl Weinidog,

### **Amserlen Cyllideb 2020–21**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Medi 2019, yn ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ynghylch eich cais i adolygu amserlen cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21.

Trafododd y Pwyllgor Cyllid eich cais yn ein cyfarfod ar 19 Medi 2019. Rydym yn cefnogi'ch cais i ddwyn ymlaen y cam o gyhoeddi'r gyllideb yn gynt na'r hyn a gytunwyd eisoes.

Er gwaethaf hyn, rydym yn siomedig nad yw'r dyddiad cau diwygiedig ar gyfer adroddiad y Pwyllgor, sef 14 Ionawr 2020, yn fwy ffafriol o ran nifer yr wythnosau eistedd sydd ar gael ar gyfer gwneud gwaith craffu. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau yr ydych yn ddarostyngedig iddynt, o ystyried yr amgylchiadau digynsail yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd mewn perthynas â Brexit a'r ffaith nad yw Llywodraeth y DU eto wedi cyhoeddi cyllideb yr hydref.

Rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch gallu Llywodraeth y DU i ddeddfu at ddibenion awdurdodi'r trefniadau cyllido a gyhoeddwyd yng nghylch gwario 2019 y DU. Byddem yn ddiolchgar i gael rhagor o wybodaeth gennych ynghylch y cronfeydd wrth gefn a fydd ar gael i chi pe na bai Llywodraeth y DU mewn sefyllfa i awdurdodi'n ffurfiol y broses o ddyrannu cyllid i Lywodraeth Cymru.

Wrth edrych ar eich llythyr, rydym hefyd yn nodi bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi hysbysu Pwyllgor Trysorlys Senedd y DU yn ddiweddar nad yw eto wedi cael cais i baratoi rhagolygon wedi'u diweddarau ar gyfer cyllideb yr Hydref. Mae hyn yn peri pryder i'r Pwyllgor Cyllid, a hoffwn roi arwydd cynnar ichi y byddwn



ni, fel rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb, yn awyddus iawn i archwilio materion yn ymwneud â'r broses o baratoi rhagolygon ymhellach, a hynny gyda chi, yr OBR a Thrysorlys Cymru. Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

